Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Camau Creadigol i Sefydliadau

# Canllaw

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

## Cynnwys


Croeso .......... 1

Ynglŷn â Chamau Creadigol i Sefydliadau .......... 2

Sut gallwn ni helpu ac am beth y gallaf i wneud cais? .......... 4

Pwy all ymgeisio? .......... 6

Am faint gallaf i wneud cais? .......... 7

Dyddiadau cau ymgeisio .......... 8

Y camau nesaf .......... 9

Cysylltu â ni .......... 10


## Hygyrchedd

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, fformat hawdd i'w ddarllen, Braille, sain ac Arwyddeg. Ymdrechwn i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Gweithredwn Bolisi Recriwtio Cyfle Cyfartal a chroesawn geisiadau gan bawb yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Ni fydd eich dewis iaith yn arwain at unrhyw oedi wrth ymateb.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

# Croeso

Croeso i Gamau Creadigol i Sefydliadau – un o'n rhaglenni ariannu'r Loteri Genedlaethol. Bydd y ddalen wybodaeth hon yn dweud wrthych am wneud cais i Gamau Creadigol fel sefydliad.

Os ydych yn meddwl mai Camau Creadigol i Sefydliadau sy'n addas i chi, y peth pwysicaf i'w wneud yw siarad ag un o Swyddogion Cyngor y Celfyddydau. Bydd hyn yn ein helpu i weithio gyda chi i ddarganfod a yw'r cynllun hwn yn iawn i'ch sefydliad a bydd yn ein helpu i ddiwallu eich anghenion. Os ydyw, yna byddwn yn eich cefnogi cystal ag y gallwn i wneud cais am gyllid Camau Creadigol.

I gael gwybod a yw eich sefydliad yn gymwys i wneud cais, mae mwy o wybodaeth ar gael yma.

Sylwer, nid yw Creative Steps ar gael i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno rhaglenni artistig. Gweler yr adran ganlynol i weld pa fath o weithgaredd y gallwn ei ariannu. Mae gennym ni gronfeydd Loteri eraill ar gael i gefnogi rhaglenni artistig, ac mae mwy o wybodaeth ar gael yma.

# Ynglŷn â Chamau Creadigol i Sefydliadau

Mae rhai sefydliadau yn llawer mwy tebygol o weld rhwystrau i gael gafael ar adnoddau a chyfleoedd, fel cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Yn ogystal â gweithio i wneud ein holl gronfeydd eraill yn fwy hygyrch, nod Camau Creadigol i Sefydliadau yw mynd i'r afael â hyn drwy gefnogi'r sefydliadau hyn i ddatblygu eu taith greadigol.

Mae Camau Creadigol i Sefydliadau yn ymwneud â chefnogi datblygiad sefydliadau celfyddydol sy'n cael eu harwain gan bobl sy'n **ethnig a diwylliannol amrywiol, pobl Fyddar, anabl** neu **niwroamrywiol** neu **bobl sydd wedi profi hiliaeth neu wahaniaethu**. Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar y grwpiau penodol hyn oherwydd bod ymchwil, yn fewnol ac yn allanol, yn dweud wrthym nad ydym yn ymgysylltu'n ddigon eang â sefydliadau o'r cefndiroedd hyn. Mae hefyd yn dweud wrthym nad yw pobl o'r cefndiroedd hyn ac â'r profiadau personol hyn wedi gallu manteisio ar ein cyllid yn hawdd a'u bod wedi wynebu rhwystrau a/neu wahaniaethu. Mae cefnogaeth i'r sefydliadau hyn yn hanfodol er mwyn helpu i gynyddu'r ystod o waith artistig o ansawdd uchel sy'n cael ei greu a'i gyflwyno yng Nghymru gan artistiaid amrywiol. Rydym am hyrwyddo pobl sydd â'r profiadau personol hyn.

Rydym yn diffinio **'ethnig a diwylliannol amrywiol'** fel:

- Unrhyw un o'r **diaspora Affricanaidd, Asiaidd, Caribïaidd, Sbaenaidd, Latino, Dwyrain Ewrop neu'r Dwyrain Canol** yng Nghymru
- Unrhyw un sy'n ymadnabod fel rhywun sy'n dod o grŵp ethnig **nad yw'n wyn yn unig**
- Unrhyw un o gymunedau **Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Rydym hefyd am gefnogi eich sefydliad i oresgyn unrhyw rwystrau rhag derbyn cyllid y gallech fod wedi ei brofi. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddarparu cefnogaeth fwy hyblyg drwy gydol y broses ymgeisio.

Rydym ni'n diffinio 'anabledd' gan ddefnyddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd:

- Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn fframwaith a gafodd ei ddatblygu gan bobl anabl i nodi a gweithredu yn erbyn eu gorthrwm ac mae'r fframwaith yn nodi bod pobl yn cael eu hanalluogi gan rwystrau mewn cymdeithas ac nid o reidrwydd gan eu nam. Gallai rhwystrau fod yn gorfforol, fel diffyg toiledau i bobl anabl, neu gallant fod yn agweddol fel cymryd bod pobl anabl yn methu gwneud rhai pethau.
- Datblygwyd y model cymdeithasol o anabledd i wrthsefyll y model traddodiadol, meddygol o anabledd yn uniongyrchol a oedd yn gweld anableddau a namau i fod yn broblem feddygol i'w hatal, ei gwella neu gyfyngu arni, gan wneud y person anabl yn broblem yn hytrach na'r gymdeithas ei hun

Rydym yn diffinio 'niwroamrywiol' neu 'niwrowahanol' fel:

- Edrych ar wahaniaethau niwroddatblygiadol fel amrywiadau naturiol ac arferol o'r genom dynol sy'n annog cymdeithas i wrthod unrhyw negyddiaeth sydd wedi ymwreiddio sy'n gysylltiedig â'r rhai sy'n dysgu pethau mewn modd penodol neu'r rhai sy'n profi bywyd mewn modd gwahanol o safbwynt niwrolegol
- Mae gan bob un ohonom systemau nerfol unigryw gyda chyfuniad unigryw o alluoedd ac anghenion
- Rydym yn cydnabod nad oes ffordd 'gywir' o feddwl, dysgu ac ymddwyn a dylid dathlu'r gwahaniaethau hyn yn hytrach na chael eu hystyried fel diffygion

## Sut gallwn ni helpu ac am beth y gallaf i wneud cais?

Trwy Gamau Creadigol, gallwn fod yn fwy hyblyg yn y ffordd rydym yn eich helpu gyda'ch syniadau a gallwn hefyd eich arwain drwy'r broses ymgeisio. Gallwn hefyd fod yn fwy hyblyg am y math o gynnig rydym yn ei ariannu a faint o gyllid y gallwn ei gynnig.

- Gallwn eich helpu i wneud cais am ein cyllid drwy:
- Eich helpu i lunio eich cynnig i ddiwallu anghenion eich sefydliad orau
- Eich cefnogi i bartneru â rhywun a fydd yn gallu gweithio pethau trwyddo gyda chi fel Swyddog Cyngor y Celfyddydau, Cydweithiwr Celfyddydol neu efallai y byddwn yn gallu talu'r gost o gael gweithiwr proffesiynol o'r tu allan i'r Cyngor Celfyddydau i'ch helpu. Byddwn hefyd yn rhoi rhestr o ymgynghorwyr posibl i ymgeiswyr a allai eich cynorthwyo gyda'ch cais a rhoi cymorth ac arweiniad i chi. Er enghraifft, gallai'r ymgynghorwyr hyn eich helpu gyda'ch strategaeth datblygu busnes neu farchnata, ymhlith pethau eraill.

Cynnig cefnogaeth wrth i chi ysgrifennu eich cais. Er enghraifft, gallwn ddarparu cefnogaeth i chi os hoffech gyflwyno eich cais mewn fformat gwahanol fel fideo yn lle cais ysgrifenedig

Gallai eich prosiect gynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i'r canlynol:

- Gweithio gyda rhywun sydd â phrofiadau tebyg i chi i'ch helpu i gael gwybod pa gamau sydd angen i chi eu cymryd nesaf os nad ydych yn siŵr
- Datblygu'r adnoddau a'r sgiliau sydd eu hangen arnoch megis gwefan, deunyddiau marchnata, defnyddio taenlenni a rheoli cyllidebau, codi arian neu bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cyrsiau hyfforddi yn ymwneud â datblygiad eich sefydliad (ond nid addysg ffurfiol megis cyrsiau gradd)
- Sefydlu grwpiau gyda sefydliadau eraill i ddysgu gyda'ch gilydd ac oddi wrth eich gilydd
- Gweithio gyda rhywun sydd â phrofiad proffesiynol (a elwir weithiau yn fentor) i'ch cefnogi wrth i chi gymryd y camau nesaf yn nhaith eich sefydliad
- Gwneud eich sefydliad yn fwy proffesiynol (cael cyngor ar ddatblygiad busnes ac ar feysydd fel sefydlu eich sefydliad er enghraifft)

Gallwn hefyd fod yn fwy hyblyg gyda'n cyllid, a byddwn yn ystyried cefnogi:

- Ceisiadau sy'n gofyn am hyd at £250,000 dros 3 blynedd (ynghyd â chostau hygyrchedd)
- Ceisiadau sy'n gofyn am hyd at 90% o gyfanswm cost gymwys y cynnig
- Ceisiadau sy'n gofyn am arian ar gyfer cyflogau staff craidd (nad yw eu swyddi'n cael eu cefnogi gan ffynonellau eraill) os gallwch ddangos y byddai hyn yn helpu'r sefydliad ar ei daith datblygu busnes

Sylwch nad yw cyllid Camau Creadigol ar gael i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno rhaglenni artistig yn unig gan fod y rhain yn cael eu cefnogi gan ein rhaglenni eraill gyda chyllid y Loteri. Gall eich cais gynnwys elfennau o weithgaredd artistig os yw'r rhain, er enghraifft, yn dangos yn glir eu bod yn profi sut y gallai model busnes newydd weithio i chi, ond byddem yn disgwyl i'r rhain gael rhesymeg ac esboniad clir ynghylch sut maen nhw'n cysylltu â'ch datblygiad sefydliadol. Bydd Swyddog yn gallu eich tywys drwy hyn.

Cofiwch mai enghreifftiau yn unig yw'r rhain o sut y gallai Camau Creadigol helpu eich sefydliad. Byddwn yn gweithio gyda chi i deilwra ein cefnogaeth i ddiwallu anghenion eich sefydliad orau.

## Pwy all ymgeisio?

Mae Camau Creadigol yn agored i sefydliadau sy'n cael eu harwain gan bobl **ethnig a diwylliannol amrywiol, Fyddar, pobl anabl a niwroamrywiol**, neu bobl sydd wedi **profi hiliaeth neu wahaniaethu**.

Byddwch naill ai'n gobeithio cynnal gweithgaredd celfyddydol, neu ei gynnal ar hyn o bryd, ar gyfer cynulleidfaoedd a chyfranogwyr.

Gan gyfeirio at 'dan arweiniad' rydym yn golygu bod o leiaf 51% o'ch uwch reolwyr, eich pwyllgor rheoli, eich bwrdd, eich corff llywodraethol neu'ch cyngor yn nodi eu bod yn dod o'r grwpiau hynny a grybwyllwyd uchod.

Er mwyn gallu gwneud cais, rhaid i sefydliadau fod ar bwynt tyngedfennol o ran eu perfformiad. Rydym yn defnyddio'r term 'pwynt tyngedfennol' i olygu bod y sefydliad yn barod i symud ymlaen at gam nesaf ei ddatblygiad hir dymor. Byddem yn disgwyl y byddai unrhyw gyllid Camau Creadigol y byddwch yn ei dderbyn yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at helpu eich sefydliad i gyflawni'r datblygiad arloesol hwn.

Mae'n rhaid i'ch sefydliad fod wedi'i leoli yng Nghymru.

Os nad ydych yn siŵr a yw eich sefydliad ar 'bwynt tyngedfennol', peidiwch â phoeni. Bydd ein trafodaethau gyda chi yn ein helpu i nodi a yw eich sefydliad ar y pwynt cywir yn ei ddatblygiad ar gyfer cymorth gan Gamau Creadigol.

Ni fyddwn yn derbyn ceisiadau gan aelodau presennol o'n Portffolio Celfyddydau Cymru.

## Am faint gallaf i wneud cais?

Gallwch wneud cais am gyllid rhwng £500 a £250,000.

Gallwch wneud cais am **Grant Bach o hyd at £10,000** i dalu costau ymgynghorydd i weithio gyda'ch sefydliad i nodi'r camau nesaf o ran datblygu busnes.

Gallwch wneud cais am ragor o Grantiau Bach os oes angen i chi gomisiynu ymchwil fwy paratoadol neu gael cymorth ychwanegol wedi'i dargedu i'ch galluogi i fynd ymlaen i lefel Grant Mawr.

Unwaith y bydd yr adolygiad hwn wedi'i gwblhau, gallwn eich cefnogi trwy **Grant Mawr o hyd at £250,000 pellach dros uchafswm o dair blynedd** i yrru pethau ymlaen a meithrin eich gwytnwch a sefydlogrwydd eich sefydliad.

Sylwch, os gwnewch gais i ni am gyfnod o fwy na blwyddyn, bydd angen i ni fonitro'r hyn rydych chi wedi'i gyflawni yn eich blwyddyn gyntaf cyn i ni gytuno i ariannu'r flwyddyn nesaf. Byddwn yn gosod targedau clir ar gyfer pob blwyddyn ac yn trafod a ydych wedi cwrdd â'r rhain cyn y gallwn symud ymlaen.

Gellir cynnwys costau staff yn eich cais, ond dim ond pan fydd hynny ynghlwm wrth gyflwyno tasgau datblygu busnes penodol. Ni allwn gefnogi costau staff craidd eraill.

Sylwer, ni allwn warantu cymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru hir dymor ar ôl i'ch prosiect ddod i ben. Mae'n rhaid i chi ddatblygu model busnes cynaliadwy nad yw'n dibynnu'n llwyr ar y cyllid hwn i gefnogi eich datblygiad parhaus.

Ni allwn ariannu cyfanswm costau eich cynnig. Y ganran uchaf o'ch cyfanswm costau prosiect cymwys y gallwn ei ariannu yw 90%. Rhaid i weddill eich incwm ddod o ffynhonnell nad yw'n dod o Gyngor Celfyddydau Cymru neu'r Loteri Genedlaethol. Gall hyn fod yn arian neu gefnogaeth mewn nwyddau, neu'n gyfuniad o'r ddau. Os yw hyn yn rhwystr, mewn amgylchiadau eithriadol byddwn yn ariannu hyd at 100%.

Gall cefnogaeth mewn nwyddau fod yn gyfraniad heb fod yn arian at eich prosiect. Ar gyfer sefydliadau, gallwch gynnwys hyd at 10% o'r cymorth o fath yn eich cyllideb. Sylwch na all cefnogaeth mewn nwyddau ddod o'ch adnoddau eich hun. Gall fod er enghraifft, rhoi lle ymarfer neu ofod stiwdio neu fenthyg offer.

## Dyddiadau cau ymgeisio

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau i'r rhaglen Camau Creadigol yw diwrnod olaf pob mis. Y dyddiad cau cyntaf fydd 31 Rhagfyr 2022 ac yn dilyn hyn, bydd yn fisol.

Os yw eich cais hyd at £10,000, cofiwch fod angen i chi ganiatáu o leiaf 6 wythnos waith rhwng y dyddiad cau a dyddiad cychwyn eich prosiect.

Os yw eich cais dros £10,000, cofiwch fod angen i chi ganiatáu o leiaf 8 wythnos waith rhwng y dyddiad cau a dyddiad cychwyn eich prosiect.

Ni allwn ariannu cynigion sydd eisoes yn digwydd felly ni fyddwn yn derbyn eich cais os bydd dyddiad cychwyn eich cynnig yn dod cyn i ni gael cyfle i asesu eich cais.

## Y camau nesaf

Os ydych yn meddwl y gallai Camau Creadigol i Sefydliadau eich helpu, cysylltwch â ni fel y gallwn gydweithio ar y camau nesaf.

Unwaith y byddwch chi mewn cysylltiad ag un o'n Swyddogion, byddant yn:

- Trafod eich syniadau a chynllunio sut i ddiwallu eich anghenion creadigol orau.
- Gweithio allan gyda chi pa lefel o gyllid sy'n briodol.
- Rhoi arweiniad a chymorth i'ch partneru â rhywun i weithio ar hyn gyda chi a helpu i lunio eich 'camau nesaf' i arwain at y prosiect.
- Rhoi cymorth i roi eich cais at ei gilydd (gallai hyn ddod gan Swyddog Cyngor y Celfyddydau, Cydweithiwr Celfyddydol neu efallai y gallwn dalu'r gost o gael gweithiwr proffesiynol o'r tu allan i Gyngor y Celfyddydau i'ch helpu).
- Eich cefnogi chi i wneud cais mewn cyfrwng gwahanol fel trwy fideo.
- Pan fydd yn berthnasol – ac os yw o ddiddordeb i chi – eich gwahodd chi i gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu gyda pobl eraill sy'n cael grantiau Camau Creadigol.

**Os byddwch yn llwyddiannus**, byddwn wrth law i'ch cefnogi. Rydym ni'n gobeithio bydd pethau yn mynd yn dda ond rydym ni hefyd eisiau i chi fod yn onest ac agored os nad yw pethau'n mynd cystal er mwyn i ni eich helpu. Ar y diwedd byddwn yn trafod beth ddigwyddodd ac opsiynau yn y dyfodol gan gynnwys rhagor o gyllid. Byddwn ni'n sicrhau bod cyfathrebu bob amser yn agored ac yn dryloyw.

**Os ydych chi'n aflwyddiannus**, byddwn ni'n dal wrth law i'ch cefnogi. Byddwn yn gweithio drwy'r rhesymau pam, a beth allwch chi ei wneud nesaf i fynd â phethau ymlaen ac o bosib ailymgeisio. Proses yw hyn oll ac nid yw'n fater o lwyddo ynteu fethu. Unwaith eto, byddwn yn sicrhau bod cyfathrebu bob amser yn agored ac yn dryloyw.

## Cysylltu â ni

Dyma'r ffyrdd y gallwch chi gysylltu. Bydd un o'n swyddogion yn cyflwyno ei hun ac yn dechrau sgwrs yn eich dewis gyfrwng.

Ffôn: 03301 242733

E-bost: camaucreadigol@celf.cymru

Oriau: 9am-5pm Llun-Iau, 9am-4.30pm Gwener

Gwefan: www.arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

Facebook: Cyngor Celfyddydau Cymru | Arts Council of Wales

Trydar: @Arts_Wales_

Instagram: celfcymruarts